CADWYN BRO

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Y Parch. Ddr. Andras Iago
Ffôn- 07778511672 *Ebost-* andrasiago@outlook.com

Medi 2018 *Rhif 085*

Mi basiodd mis Gorffennaf a mis Awst – a chyda hynny, pasiodd yr haf poethaf i mi ei brofi. Mae'n debyg bydd yn destun sgwrs am flynyddoedd – bydd rhai'n cofio'n felys am yr wythnosau o haul tanbaid ac awyr las ddigwmwl, tra bydd eraill yn cofio'r effaith ar y tir ar ar waith bob dydd. Erbyn hyn, diolch byth, mae'r caeau'n dechrau glasu eto.

Wrth ddarllen trwy'r Beibl yn ddiweddar deuthum ar draws Salm 1. Cyflwyniad i lyfr y Salmau yw hon – y salm sy'n cychwyn â'r geiriau hyn:
Gwyn ei fyd y sawl nad yw'n dilyn cyngor y drygionus nac yn ymdroi hyd ffordd pechaduriaid nac yn eistedd ar sedd gwatwarwyr, ond sy'n cael ei hyfrydwch yng nghyfraith yr ARGLWYDD ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos.
Y mae fel pren wedi ei blannu wrth ffrydiau dŵr ac yn rhoi ffrwyth yn ei dymor, a'i ddeilen heb fod yn gwywo. Beth bynnag a wna, fe lwydda.

Er yr holl dywydd poeth, mae'r coed yn y caeau o'n cwmpas ni'n edrych yn parhau i fod yn wyrdd a deiliog. Mae'r coed ffrwythau'n dwyn ffrwyth – a dweud y gwir, mae'n nhw'n drwm ac afalau a gellyg. Pam? Mae eu gwreiddiau nhw'n ddwfn yn y pridd, ac mae'n nhw'n cael hyd i'r dŵr sy'n rhoi bywyd.

Bod yn wyn ein byd. Bod 'fel pren planedig'. Cyfrinach byw yn dda, meddai'r geiriau hyn, ydi bod wedi'n gwreiddio a'n trwytho yn nghyfraith Duw, yn y gair sy'n rhoi bywyd ym mhob tywydd.

DIGWYDDIADUR

CINIO'R FRO – Gwener, Medi 14, Festri Capel Mawr, 12 y.p.

ASTUDIAETH FEIBLAIDD bob dydd Mercher yn Festri Trefnant, 1.30 y.p.

WYTHNOS WEDDI DROS UNDOD CRISTNOGOL, Medi 3-8.
Cyfarfod gweddi bob dydd am 12:00 yn Eglwys y Santes Fair.
Gwasanaeth, 9 Medi am 6 y.h., Eglwys y Santes Fair.

CLWB IEUENCTID BRO DINBYCH – Medi 22, 7-9 y.h., Festri Llandyrnog. Croeso cynnes i bawb!

BODFARI

Dydd Sul, Medi 2
2.00- Parch Robert Parry, Wrecsam
Dydd Sul, Medi 23
9.45 – Parch Andras Iago

Gobeithio fod pawb wedi mwynhau haf braf rydym wedi ei gael ac yn edrych ymlaen am dymor yr Hydref pryd y bydd y Parch Christopher Prew yn dod atom i'r Gwasanaeth Diolchgarwch Dydd Iau, Hydref 4, am 2.00.

BRWCWS

Dydd Sul, Medi 2ail
Ysgol Sul am 10.00.
Parch. Alan Spencer am 2.00
Dydd Sul, Medi 9ed
Ysgol Sul am 10.00
Oedfa Gymun - Parch. Andras Iago am 2.00
Dydd Sul, Medi 16eg
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Irfon Parry am 2.00
Dydd Sul, Medi 23ain
Ysgol Sul am 10.00
Mr Dennis Davies am 2.00

Dydd Sul, Medi 30ain
Ysgol Sul am 10.00
Parch. Eifion G. Jones am 2.00

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 21ain aeth plant yr Ysgol Sul i Landudno a'r eu trip blynyddol.

Llongyfarchiadau i Martha Llwyd Cordiner, Ystrad Bach ar dderbyn gradd BA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Plentyndod o Brifysgol Bangor.

Y DYFFRYN

Dydd Sul Medi'r 2ail am 11 yb
Parch Gwyndaf Jones
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30
Emyn a darllen - Anwen
Organ - Lona
Blodau - Ceri
Dydd Sul Medi'r 9fed am 9.45 yb
Parch Huw Pritchard
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15
Emyn a Darllen - Catrin
Emyn a darllen Plant - Cadi a Megan
Organ - Iona
Blodau - Iona

Dydd Sul Medi'r 16eg am 11 yb
Parch Andras Iago - Gwasanaeth Cymun
Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30
Emyn a Darllen - Gwenan neu Sion
Emyn a Darllen Plant - Mati Nel
Organ - Alaw
Blodau - Gwyneth (Bodfan)

Dydd Sul Medi'r 23ain am 9.45 yb
Parch Euros Wyn Jones
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15
Emyn a Darllen - Bryn
Organ - Anwen
Blodau - Julia

Dydd Sul Medi'r 30ain am 11 yb
Parch Aeron Hughes
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 10.30
Emyn a Darllen - Gwilym
Organ – Glenys
Blodau - Karen

Llongyfarchiau calonog i Elwy, Penybryn ar ei lwyddiant yn yr arholiad Lefel A a dymuniadau da iddo yn y Brifysgol yn Lerpwl yn astudio milfeddygaeth. Hefyd ein llongyfarchiadau i Gwenan, Penybryn ar ei llwyddiant hithau yn Eisteddfod Caerdydd.

GELLIFOR

Dydd Sul, Medi 2
9.45 - Parch Gwyndaf Jones
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol – Llinos
Offeryn – Nia
Blodau – Glen

Dydd Sul, Medi 9
11.00 - Parch Hugh Pritchard
Llywydd – Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Wykes
Offeryn - Richard
Blodau – Glen

Dydd Sul, Medi 18
9.45 Gweinidog (Cymun)
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Sioned
Offeryn – Alaw
Blodau - Jenni

FRON

Llywydd y mis – Mrs Gaynor Prew
Dydd Sul, Medi 2
10.00 – Capel Mawr - Trefniant mewnol
5.30 – Fron – Parch Alan Spencer, Bae Colwyn
Dydd Sul, Medi 9
11.00 – Fron – Buail – Oedfa Gymun
OEDFA YN SANTES FAIR, 6 y.h.m
Dydd Sul, Medi 16
10.00 – Capel Mawr – Parch Irfon Parry, Graig-y-don
5.30 – Fron – Parch Irfon Parry, Graig-y-don
Dydd Sul, Medi 23
10.00 – Fron – Mr Dennis Davies, Llanrwst
5.30 – Capel Mawr – Mr Peter Smith, Henllan
Dydd Sul, Medi 30
10.00 – Capel Mawr – Parch Eifion Jones
5.30 – Fron – Parch Eifion Jones

Paratoi Bwrdd y Cymun
Mrs Gaynor Prew a Mrs Gwenda Owens

Blodau – yn gyfrifol Mrs Eiri Jones
2 – Mrs Gwenda Owens
9 – Mrs Eiri Jones
16 –
23- Mrs Nia Angharad Jones
30 –

Croesawu
2 – Richard Snelson
9 – Wendy Jones
16 – Gwyrfai Jones
23 – John Howatson
30 – John Geraint Jones

Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws
Yr ydym am ymuno yn Cyfarfod Cenhadol y Chwiorydd yn Capel Bethania, Rhuthun Nos Fawrth Medi 25ain am 7 o'r gloch.

Cynhelir ein Ffair Hydref Bore Sadwrn Medi 29ain yn Eirianfa o 10 o'r gloch ymlaen. Dewch i gefnogi.

Y CAPEL MAWR A SEION

DALIER SYLW

Pan fo'r Gweinidog gyda ni yn Y Capel Mawr neu'r Fron bydd yr oedfa am 11 y.b

Dydd Sul, Medi 2
10am – Y Capel Mawr - Trefniant Mewnol
5.30pm – Y Fron - Mr Alun Spencer, Bae Colwyn

Dydd Sul, Medi 9
*11am – Y Fron – Y Bugail –
gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon
6 y.h. Oedfa ar y cyd, Eglwys y Santes Fai

Dydd Sul, Medi 16
10am – Y Capel Mawr– Y Parch. Irfon Parry
5.30pm – Y Fron – Y Parch. Irfon Parry

Dydd Sul, Medi 23
10am– Y Fron - Mr Dennis Davies, Llanrwst
5.30pm – Y Capel Mawr – Mr Peter Smith, Henllan

Dydd Sul, Medi 30
10am – Y Capel Mawr – Y Parch. Eifion Jones
5.30pm – Y Fron – Y Parch. Eifion Jones
Llywydd Y Mis: Mr Stan Lyall
Casglyddion:-
Mr Glyn Jones
Mr Bedwyr Griffiths
Wrth y Drws
Mr Glyn Jones
Mr Bedwyr Griffiths

Organydd/ Cyfeilydd:-
Medi 2 - Mrs Dorothy Rogers
Medi 9 – Mrs Catrin Warren
Medi 16 – Mrs Catrin Warren
Medi 23- Mrs Dorothy Rogers
Medi 30 - Mrs Dorothy Rogers

BLODAU

Medi 2 – Mrs Mary Jones, Gwynedd
Medi 16 – Mrs Mair Eluned Jones
Medi 30 - Mrs Lilian Jones

LLETY'R PREGETHWYR

Medi 16 – Y Fron
Medi 23 – Y Capel Mawr

CYDYMDEIMLAD - Cydymdeimlwn â Mr J. D. Williams yn ei brofedigaeth o golli'i chwaer yn ystod yr haf.
DYMUNIADAU GORAU Bellach y mae Mr Meurig Voyle wedi ymgartefu yn Llanrhaeadr Hall. Dymunwn yn dda iddo.
LLONGYFARCHIADAU Llongyfarchwn Alwenna a Gwilym Luke Jones ar ddod yn nain a thaid - am yr unfed tro ar ddeg.
Medi
Medi 10fed: Cyfarfod Gweddi am 1.30. Croeso cynnes i bawb.
Medi 18fed: Yr Aelwyd am 1.30. Bydd Clwyd Wynne a Dafydd Lloyd Jones yn rhoi sgwrs am Ysbyty Gogledd Cymru.

CAPEL Y PENTRE, PRION A'R GLYN

Dydd Sul, Medi 2
9.45 - Pentre - Parch Huw Dylan Jones
Dydd Sul, Medi 9fed
Dim gwasanaeth
Dydd Sul, Medi 16eg
9.45 - Prion - Cyfarfod Gweddi
Dydd Sul, Medi 23ain
11.00 - Pentre - Gwasanaeth teuluol gyda'n Gweinidog a Paned i ddilyn
Dydd Sul, Medi 30ain
9.45 – Pentre - Diolchgarwch Mr Richard Jones

LLONGYFARCHIADAU - I Mrs Annette Rowlands am ddod yn hen-nain i Nansi Elisabeth yn ystod Mis Gorffennaf, merch fach iw wyres Elin. Pob bendith i'r teulu bach.
COFION at Trefor, Ffrith Isa a Margaret, Carreg Pennill, sydd wedi bod am driniaeth yn ystod yr Haf, ac at bawb sydd eto o dan brofion, dymuniadau gorau i chi am wellhad buan
CHWIORYDD - Diwedd tymor y chwiorydd, cawsom de pnawn ardderchog yn Festri y Pentre, wedyn aethom i ymweld a Woodland Skills yn Afonwen. Cawsom sgwrs difyr gan Mr Rod Waterfield ar sawl agwedd o waith y ganolfan.
CYMDEITHAS Nos Wener, 5ed Hydref 2018 am 6yh
Noson agoriadol y Gymdeithas fydd swper o lobsgaws a phwdin, ac adloniant yng nghwmni Sion, Cerys, a Catherine Edwards Pwllglas. Pris swper £5 ac am ddim i blant. Croeso cynnes i bawb.
URDD 2020 - Mae noson pwyllgor apêl wedi newid i Nos Iau 6ed Medi am 7yh yn Festri'r Capel, a'r gwaithgaredd cynta ydi Brecwest yn y Festri, bore Sadwrn 15fed Medi 10.30 – 12.30. Croeso cynnes i bawb.

PRION

Cydymdeimlwn a theulu Bryn Awel yn ei profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith sef David Morris, Graig Lwyd gynt.

GLYN

Dydd Sul, Medi 16

Trefnwyd Taith i'r Ysgwrn, Trawsfynydd.
Amser cychwyn i'w drefnu a Swper i ddilyn.

Etholwyd a chroesawyd Marian, Y Llys yn flaenores newydd.

Pleser yw llongyfarch Ela Tŷ Mawr sydd wddi Graddio o Brifysgol Bangor gyda Gradd ardderchog.

Ponb dymuniad da i Llion Penbrynllan yn ei swydd newydd gyda Chwmni Emyr Evans yn Ninbych.

Llongyfarchiadau i Dafydd Penbrynllan a ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd.

TREFNANT

Llywydd y Mis : TUDOR JONES

Dydd Sul Medi 2ail
10.00 - Parch. Cath Williams 11.15 YSO
3.30 - Parch. Cath Williams
Blodau : Eirlys Roberts

Dydd Sul Medi 9fed
9.45 - Bugail 11.15 YSO
3.30 - Bugail
Blodau : Glynwen Davies

Dydd Sul Medi 16eg
10.00 - Parch. Goronwy Prys Owen 11.15 YSO
3.00 - Parch. Goronwy Prys Owen
Blodau : Dilys Jones

Dydd Sul Medi 23ain
10.00 - Miss Llinos Mary Jones 11.15 YSO
3.00 - Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Dilys Jones

Dydd Sul Medi 30ain
9.45 - Bugail - Gwasanaeth y Cymun Santaidd gyda phaned i ddilyn
3.30 - Bugail
Blodau : Gwennan Davies

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU Bydd cyfarfodydd prynhawniau Llun yn ail-ddechrau ar waith y tymor ar brynhawn Llun Medi'r 17eg yn y festri.. Yn ogystal a chyfle i addoli, cymdeithasu, sgwrsio a mwynhau paned, mae'r cynnyrch a gyflawnir o fudd arbennig i bobl a phlant lleol a thramor. Gobeithio gweld yr holl aelodau ffyddlon yn ol wrth y byrddau ac, wrth gwrs, mae lle a chroeso i eraill ymuno a mwynhau prynhawn o gymdeithasu difyr.

CYFARCHION arbennig i Marian Roberts sydd wedi treulio wythnosau yn yr Infirmari erbyn hyn - er fod yr amser yn hir, mae Marian yn dal yn siriol ac yn cofio amdanom i gyd yn y gwasanaethau. Cofiwn amdanoch chi Marian ynghyd ag eraill sy'n methu'r gwasanaethau ar hyn o bryd, yn ein Gweddiau. Dymunwn yn dda i chi gyd ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn ol i'r cwmni.

LLONGYFARCHIADAU i bawb o blant yr Eglwys sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn arholiadau coleg ac ysgol yr haf hwn . Pob dymuniad da i chi gyd yn y dyfodol.

TAITH FEICIO NODDEDIG - diolch i bawb wnaeth gyflawni'r gamp o deithio rhwng Pensarn a Splash Point ac i bawb wnaeth gefnogi'r fenter - gwnaed elw o dros £600 i Gymorth Cristnogol. Diolch yn fawr.

GWYL DDIOLCHGARWCH Cynhelir yr Wyl eleni nosweithiau Mawrth a Mercher, Hydref 9fed a 10fed - bydd cyfarfod Gweddi ar y Nos Fawrth a disgwyliwn y Parchedig Jim Clarke atom i wasanaethu ar y Nos Fercher gyda Swper Diolchgarwch i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

NEGES NESTA

Llongyfarchiadau gwresog i rai o'r Fro a ddaeth i'r brig yn yr Eisteddfod yng Nghaerdydd eleni – dyna wefr oedd cystadlu ar Lwyfan Canolfan y Mileniwm a'r neuadd dan ei sang. Profiad bythgofiadwy!

A dyma Fis Medi arall a Gweithgareddau'n ail-gydio. Yn Ninbych bydd y capeli yn dathlu wythnos Weddi am Undod Cristnogol rhwng Medi'r 3- 8, a bydd Cyfarfod Gweddi bob ganol dydd am 12.00 yn Eglwys y Santes Fair gyda Gwasanaeth i gloi am 6.00 yn Eglwys y Santes Fair. Eglwysi'r Caribî fu'n paratoi'r deunydd eleni a dangosent sut y maent yn cydweithio i iachâu'r clwyfau yng nghorff Crist. Mae cymodi'n golygu edifarhau, gwneud iawn am anghyfiawnderau a iachâu'r cof. Gelwir yr Eglwys gyfan i fod yn arwydd o'r cymod hwnnw ac i weithio'n ddyfal tuag ato.

Hyfryd oedd gweld criw o blant yn cael hwyl yng Neuadd Trefnant dan arweiniad Martyn Geraint yn moli a chymdeithasu.

Bydd tîm Agor y Llyfr yn ymarfer *Yn y dechrau* yng nghapel Trefnant 9.00 boreau Llun 3ydd a'r 9fed o Fedi os hoffech ymuno â ni yn y paratoadau.



Mawr yw ein diolch i Elwyn Evans o Landyrnog am baratoi Coeden mwy cadarn na'r un gardbord oedd gennym! Bum i a'm merch Gwenan yn ei phaentio. Byddwn yn cychwyn yn yr Ysgolion ar wythnos gyntaf Hydref.

Llongyfarchiadau gwresog i Marian, gafodd ei hordeinio'n flaenor mewn cyfarfod arbennig o'r Henaduriaeth ar y 7fed o Orffennaf. Pob bendith iddi ar ei gwasanaeth.

Pob Bendith ar eich ymdrechion wrth i'r Tymor newydd ddechrau.

Nesta

T4U

real people making
a real difference

Fyddwch chi'n paratoi bocsus ar gyfer Plant dramor y Nadolig drwy'r elusen yma?
Mae llawer o setiau o fandiau gwallt a menyg di-fawd, capiau, tedis wedi eu gwau ar ol ein harddangosfa grefft dros y Pasg y gallwch eu rhoi ynddynt.
Cysylltwch am wybodaeth ar 07870323790

Newyddion rhifyn H y d r e f o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Medi 21
e-bost : meinididdos13@gmail.com
neu: 01745890417